# ATODIAD A

# PROFFILIAU SWYDDI A MANYLEBAU PERSON CYNGHORWYR, AELODAU CYFETHOLEDIG A DEILIAID SWYDDI CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

(Noder:-

**Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer trefniadau rhannu swydd o ran y deiliaid swyddi canlynol**:-

Rhan 4, Adran 58 o'r Ddeddf *:-

- Arweinwyr Gweithrediaeth
- Aelodau Gweithrediaeth

*Dod i rym 5 Mai 2022.

Rhan 4, Adran 60 o'r Ddeddf**:-

- Cadeirydd Prif Gyngor
- Is-gadeirydd Prif Gyngor
- Aelod llywyddol o Brif Gyngor
- Dirprwy Aelod llywyddol o Brif Gyngor
- Cadeirydd Pwyllgor neu Is-bwyllgor Prif Gyngor;
- Is-gadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor neu Is-bwyllgor Prif Gyngor;
- Dirprwy Faer mewn Gweithrediaeth Maer a Chabinet (Gweler Atodlen 1 i Ddeddf 2000 (Trefniadau Gweithrediaeth)

**Dod i rym ar ddyddiad i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru

# ATODIAD A


| | Rôol | Tudalen Rhif |
|---|---|---|
| | | |
| 1 | Cynghorydd Sir | 3 |
| 2 | Cadeirydd y Cyngor | 6 |
| 3 | Is-Gadeirydd y Cyngor | 8 |
| 4 | Arweinydd y Cyngor | 9 |
| 5 | Dirprwy Arweinydd y Cyngor | 13 |
| 6 | Aelodau'r Cabinet | 15 |
| 7 | Cadeirydd Craffu | 20 |
| 8 | Is-Gadeirydd Craffu | 23 |
| 9 | Aelod Pwyllgor Craffu | 26 |
| 10 | Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio (Cynllunio a Thrwyddedu) | 29 |
| 11 | Is-Gadeirydd Cynllunio | 31 |
| 12 | Is-Gadeirydd Trwyddedu | 33 |
| 13 | Aelod Pwyllgor Rheoleiddio | 35 |
| 14 | Cadeirydd y Pwyllgor Apelau | 37 |
| 15 | Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 39 |
| 16 | Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 41 |
| 17 | Hyrwyddwr Datblygu'r Aelodau | 43 |
| 18 | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | 44 |
| 19 | Aelod o'r Pwyllgor Safonau | 45 |
| 20 | Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 47 |
| 21 | Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 49 |
| 22 | Aelod-Hyrwyddwr/Aelod-Lysgennad | 52 |
| 23 | Arweinydd Grŵp Gwleidyddol | 53 |

## 1. CYNGHORYDD SIR

### 1.1 Atebolrwydd

I'r Cyngor Llawn
I etholwyr y ward

### 1.2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

**Cynrychioli a chefnogi cymunedau**
Cynrychioli buddiannau'r rhanbarth etholiadol ac etholwyr unigol yn effeithiol.
Lle bo'n briodol, cyfeirio mater trosedd ac anhrefn lleol (fel y diffinnir gan Adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006) at y Pwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Trosedd ac Anhrefn fel eitem ar yr agenda i'w thrafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor.
Hyrwyddo'r Cyngor yn y ward a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Maent yn cyfrannu at lywodraethu'r ardal yn dda ac yn mynd ati i annog cyfranogiad cymunedol a chymryd rhan gan ddinasyddion yn y gwaith gwneud penderfyniadau gan y Cyngor a'i bartneriaethau
Bod yn fodd i gyfathrebu â'r gymuned ynghylch strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r cyngor
Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau lleol yn y Cyngor a gwneud gwaith achosion ar eu rhan, gan wasanaethu pawb yn deg.
Cadw mewn cysylltiad ag Aelodau'r Cabinet, aelodau eraill y cyngor, swyddogion y cyngor a sefydliadau partner i sicrhau bod anghenion y cymunedau lleol yn cael eu nodi, eu deall a'u cefnogi.
Hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad yn eu cymunedau lleol.
Trosglwyddo materion polisi neu berfformiad gwasanaeth a godir mewn cyfarfodydd o'r Rhwydweithiau Cymunedol i'r Aelod priodol o'r Cabinet.
Cynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad a moeseg.

**Gwneud penderfyniadau a goruchwylio perfformiad y cyngor**

Cymryd rhan yn y gwaith o lywodraethu a rheoli'r cyngor trwy gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau yng nghyfarfodydd y cyngor a'i bwyllgorau a sicrhau penderfyniadau gwybodus a chytbwys.
Ar y cyd, bod yn gyfrifol yn y pen draw am lunio polisi a chyflawni nifer o swyddogaethau rheoli strategol a chorfforaethol, gan gynnwys goruchwylio perfformiad
Glynu at egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd wrth wneud penderfyniadau
Hyrwyddo a sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau'r cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

**Cynrychioli'r Cyngor**

Cynrychioli'r Cyngor a gweithredu fel hyrwyddwr iddo ar gyrff lleol allanol.
Cynrychioli'r Cyngor a gweithredu fel hyrwyddwr iddo ar gyrff partneriaeth lleol, gan hyrwyddo buddiannau cyffredin a chydweithrediad er budd pawb
Cynrychioli'r Cyngor a gweithredu fel hyrwyddwr iddo ar gyrff cenedlaethol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol

# ATODIAD A

## Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chydberthnasau

Rhaid i aelodau gadw at gôd ymddygiad y Cyngor pryd bynnag y byddant:

yn cynnal busnes yr awdurdod
yn ymgymryd â rôl aelod yr etholwyd hwy neu y penodwyd hwy iddi; neu
yn gweithredu fel cynrychiolwyr yr awdurdod

A thrwy hynny:

Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da ar y Cyngor a'i waith
Darparu arweinyddiaeth gymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol
Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
Cefnogi a glynu at berthynas barchus, briodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor
Glynu at Gôd Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol ar y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion, a chynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad a moeseg mewn swydd gyhoeddus

## Datblygiad personol a datblygu'r rôl

Cymryd rhan mewn cyfleoedd ar gyfer datblygu a ddarperir gan y Cyngor ar gyfer yr aelodau

## Gwerthoedd

Bod yn ymroddedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

Bod yn agored ac yn dryloyw
Gonestrwydd ac uniondeb
Goddefgarwch a pharch
Cydraddoldeb a thegwch
Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol
Cynaliadwyedd

Trwy gymhwyso egwyddorion hawliau dynol yn fframwaith ar gyfer datrys gwahaniaethau rhwng grwpiau cymdeithasol ac ad-drefnu cyflwyno gwasanaethau

Trwy hyrwyddo polisïau sy'n annog cyswllt ar delerau cyfartal rhwng pobl anabl a phobl heb anabledd: yn y gwaith, yn yr ysgol a thrwy hyfforddiant, a thrwy roi esiampl bersonol trwy nodi cyfleoedd i wneud hynny
Trwy sicrhau bod polisi gofal cymdeithasol yn cynyddu dewis a rheolaeth, ac nad yw'n cael ei wanhau oherwydd amharodrwydd i gymryd risgiau
Trwy sicrhau cyfranogiad holl aelodau'r gymuned wrth lunio penderfyniadau
Trwy fod yn agored ynghylch profiadau personol o'r namau a achosir gan gyflyrau iechyd hir dymor a bod yn esiampl gadarnhaol i annog eraill a helpu i fynd i'r afael â disgwyliadau isel
Trwy gefnogi cynlluniau mentora i helpu pobl anabl i ddod yn arweinwyr
Trwy ddeall a hyrwyddo gwerth addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd da ar gyfer plant anabl a'r angen am gyfleoedd dysgu parhaus gydol oes

# ATODIAD A

## 1.3. Manyleb Person Cynghorydd

I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y proffil swydd, mae angen y canlynol ar aelod effeithiol:

### A) Cynrychioli a chefnogi cymunedau

Sgiliau eiriolaeth da
Sgiliau rhyngbersonol
Uniondeb a'r gallu i osod barn bersonol o'r neilltu a gweithredu'n ddiduedd
Y gallu i gyflwyno dadleuon perthnasol, gyda rhesymeg dda
Sgiliau cyfathrebu da

### B) Gwneud penderfyniadau a goruchwylio perfformiad y cyngor

Gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfansoddiad y cyngor, ei reolau a'i gonfensiynau
Dealltwriaeth o gyd-destunau strategol, polisi a gwasanaeth penderfyniadau
Y gallu i herio syniadau a gwneud cyfraniad cadarnhaol i ddatblygiad polisi

### C) Cynrychioli'r Cyngor

Sgiliau siarad cyhoeddus da
Sgiliau cyflwyno da
Y gallu i ddarbwyllo eraill a sicrhau uniondeb wrth weithredu

### D) Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chydberthnasau

Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
Parch at wahanol grwpiau ac unigolion ac awydd i weithio gyda hwy
Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor, y Côd Ymddygiad a'r Protocol ar gyfer Aelodau a Swyddogion
Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

### E) Datblygiad personol a datblygu'r rôl

Gallu i asesu anghenion datblygu personol ac o ran y rôl
Awydd a sgiliau i gymryd rhan mewn gwaith datblygu

## 2. CADEIRYDD Y CYNGOR

### 2.1 Atebolrwydd

I'r Cyngor Llawn

### 2.2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

**Gweithredu fel symbol o awdurdod democrataidd y Cyngor**

Fel pen seremonïol ar y Cyngor, bod yn anwleidyddol a chynnal gwerthoedd democrataidd y Cyngor
Mae'r Cadeirydd yn gweithredu fel llysgennad i holl ddinasyddion y Sir, ac felly mae'n hanfodol bod urddas y swydd yn cael ei diogelu bob amser a bod y protocolau perthnasol yn cael eu dilyn yn fanwl.
Cynrychioli'r Cyngor mewn swyddogaethau dinesig a seremonïol
Annog y cyhoedd i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor.
Mynychu pa ddigwyddiadau dinesig a seremonïol bynnag y penderfyna'r Cyngor ac ef/hi sy'n briodol.

**Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor**

Llywyddu yng nghyfarfodydd y Cyngor, fel y gall ei fusnes gael ei gyflawni'n effeithlon gan roi ystyriaeth i hawliau cynghorwyr a buddiannau'r gymuned.
Sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor
Sicrhau bod cyfarfod y Cyngor yn fforwm ar gyfer trafod materion sy'n peri pryder i'r gymuned leol ac yn fan lle gall y cynghorwyr ddal y Cabinet a chadeiryddion pwyllgorau i gyfrif.

**Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor**

Cynnal a hyrwyddo dibenion Cyfansoddiad y Cyngor yng nghyfarfodydd y Cyngor a, lle bo angen, dyfarnu ar y dehongliad o'r Cyfansoddiad

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chydberthnasau**

Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da ar y Cyngor a'i waith
Rhoi arweiniad cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol
Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
Cynnal a glynu at berthynas barchus, briodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor
Glynu at Gôd Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol ar gyfer Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

**Rhaglennu gwaith**

Paratoi a rheoli rhaglen waith flynyddol ar gyfer y Cyngor fel ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol (e.e. pennu'r gyllideb a'r Dreth Gyngor a threfnu apwyntiadau)

**Gwerthoedd**

Bod yn ymroddedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

Bod yn agored ac yn dryloyw
Gonestrwydd ac uniondeb
Goddefgarwch a pharch
Cydraddoldeb a thegwch
Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol
Cynaliadwyedd

**2.3 Manyleb Person Cadeirydd y Cyngor**

***I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl honno, mae angen y canlynol ar aelod effeithiol:***

**Gweithredu fel symbol o awdurdod democrataidd y Cyngor**

Sgiliau siarad cyhoeddus da
Dealltwriaeth fanwl o rôl Cadeirydd y Cyngor a'r protocolau

**Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor**

Sgiliau cadeirio cyfarfodydd, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn effeithiol a bod pawb sy'n bresennol yn cymryd rhan
Dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor a'r Rheolau Sefydlog

**Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor**

Dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor
Dealltwriaeth o ran pryd mae angen gofyn cyngor y Swyddog Monitro ar faterion sy'n ymwneud â'r Cyfansoddiad

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chydberthnasau**

Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
Parch at wahanol grwpiau ac unigolion ac awydd i weithio gyda hwy
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Côd Ymddygiad a'r Protocol ar gyfer Aelodau/Swyddogion
Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

**Rhaglennu gwaith**

Y gallu a'r ddisgyblaeth i gynllunio a rheoli rhaglenni gwaith

## *3. IS-GADEIRYDD Y CYNGOR*

### 3.1 Atebolrwydd

I Gadeirydd y Cyngor Sir
I'r Cyngor Llawn

### 3.2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

Cyflawni dyletswyddau'r Cadeirydd yn ei (h)absenoldeb
Cynorthwyo'r Cadeirydd gyda dyletswyddau penodol yn ôl y galw

*(Gweler hefyd Rôl, Diben a Gweithgaredd Cadeirydd y Cyngor)*

### 3.3 Manyleb Person Is-gadeirydd y Cyngor

***I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl honno, mae angen y canlynol ar aelod effeithiol:***

**Gweithredu fel symbol o awdurdod democrataidd y Cyngor**

Sgiliau siarad cyhoeddus da
Dealltwriaeth fanwl o rôl Cadeirydd y Cyngor a'r protocolau

**Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor yn absenoldeb y Cadeirydd**

Sgiliau cadeirio cyfarfodydd, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn effeithiol a bod pawb sy'n bresennol yn cymryd rhan
Dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor a'r Rheolau Sefydlog

**Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor**

Dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor
Dealltwriaeth o ran pryd mae angen gofyn cyngor y Swyddog Monitro ar faterion sy'n ymwneud â'r Cyfansoddiad

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chydberthnasau**

Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
Parch at wahanol grwpiau ac unigolion ac awydd i weithio gyda hwy
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Côd Ymddygiad a'r Protocol ar gyfer Aelodau/Swyddogion
Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

**Rhaglennu gwaith**

Y gallu a'r ddisgyblaeth i gynllunio a rheoli rhaglenni gwaith

## 4. ARWEINYDD Y CYNGOR

### 4.1 Atebolrwydd

I'r Cyngor Llawn
I'r grŵp enwebu
I'r etholwyr

### 4.2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

**Rhoi arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor**

Arwain yr Awdurdod yn wleidyddol a gweithredu fel prif lefarydd cyhoeddus ar ran y Cyngor yn enwedig mewn perthynas â materion polisi a chyllideb
Gweithredu'n frwd i hyrwyddo gwerth gorau mewn perthynas â darparu gwasanaethau ac annog cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth
Rhoi arweiniad wrth feithrin consensws gwleidyddol ynghylch polisïau'r cyngor.
Creu gweledigaeth ar gyfer y Cyngor a'r gymuned
Rhoi arweiniad clir a chadarn wrth gydlynu polisïau, strategaethau a chyflwyno gwasanaethau i'r Cyngor a'i reolwyr.
Cadw golwg gyffredinol ar berfformiad y Cyngor a bod yn atebol i'r Cyngor a'r gymuned yn gyffredinol am safonau cyffredinol y gwasanaethau a ddarperir.
Penderfynu ar unrhyw faterion a gyfeirir ymlaen gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr at swyddogion yn unol â chynllun dirprwyo cyffredinol y Cyngor.
Gweithredu fel yr Aelod o'r Cyngor a enwebwyd i lofnodi'r Datganiad Blynyddol o Reolaeth Fewnol yn dilyn cymeradwyaeth ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio.

**Portffolio i gynnwys:**

Arweinyddiaeth a Strategaeth Gorfforaethol
Cadeirydd y Cabinet
Cynrychioli'r Cyngor ar Gyngor a Cabinet Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Datblygu Economaidd
Cynrychioli'r Cyngor ar Ranbarth Dinas Bae Abertawe
Cydweithio
Marchnata a'r Cyfryngau
Penodi Aelodau o'r Cabinet
Penderfynu ar Bortffolios AC
Cyswllt â'r Prif Weithredwr
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Cynllunio Strategol Corfforaethol

**Penodi'r Cynghorwyr a fydd yn gwasanaethu ar y Cabinet a phennu eu portffolios**

Penodi Cynghorwyr i wasanaethu fel Aelodau o'r Cabinet ym mhob portffolio, gan roi sylw i'w galluoedd, gyda'r pŵer i adolygu penodiadau a/neu ddyrannu portffolios.
Penodi hyd at ddau Ddirprwy Arweinydd a fydd yn ymgymryd â'r swyddogaethau a nodir yn eu proffiliau swydd a phroffil swydd Arweinydd y Cyngor ar gais yr Arweinydd o dan amgylchiadau lle na all ef/hi eu cyflawni.

Penodi Arweinydd sy’n rhannu swydd ac Aelodau o’r Cabinet sy’n rhannu swydd, cyn belled â nad yw’r nifer fwyaf sydd ar y Bwrdd yn fwy na thair ar ddeg.
Penodi ‘Cynorthwywyr i’r Weithrediaeth’ nad ydynt yn aelodau o’r Cabinet ond y mae hawl ganddynt i fynychu, a siarad yn, unrhyw gyfarfod o’r Cabinet neu unrhyw Bwyllgorau’r Cabinet.

**Cynrychioli'r Cyngor a gweithredu fel llysgennad ar ei ran**

Cynrychioli'r cyngor i safon uchel, a bod yn ffigwr cryf, galluog a huawdl o fewn y Cyngor ac mewn cyfarfodydd â chyrff allanol.
Cynrychioli'r cyngor ar bwyllgor cydlynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, bwrdd partneriaeth rhanbarthol CLlLC, a chyrff eraill a bennir gan y cyngor.
Rhoi arweiniad a chefnogaeth i bartneriaethau a sefydliadau lleol.
Cynrychioli'r cyngor ar gyrff rhanbarthol a chenedlaethol fel sy'n briodol.

**Rhoi arweiniad o fewn y portffolio**

Cyflawni rôl deilydd portffolio, gan roi sylw i bwrpas a gweithgareddau'r rôl, a manyleb rôl aelod o'r Cabinet

**Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a chadeirio cyfarfodydd**

Sicrhau bod y Cabinet yn rhedeg yn effeithiol trwy reoli'r rhaglen gwaith cychwynnol a sicrhau ei datblygiad parhaus.
Sicrhau bod gwaith y Cabinet yn cyflawni amcanion polisi cenedlaethol.
Cynghori a mentora aelodau eraill o'r Cabinet wrth eu gwaith.
Cadeirio cyfarfodydd o'r Cabinet yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, ac ar yr un pryd hyrwyddo arfer ac egwyddorion gwneud penderfyniadau ar y cyd.
Yn absenoldeb yr Arweinydd bydd yr Aelod o’r Cabinet a enwebwyd yn Ddirprwy Arweinydd Cydgysylltu Strategol yn cyflawni'r rôl hon.

**Cymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir ar y cyd gan y Cabinet a'u harwain**

Cydweithio'n agos ag aelodau eraill y Cabinet i sicrhau:

- bod polisïau effeithiol yn cael eu datblygu i'r Cyngor
- fframwaith cyllidebol ar gyfer y Cyngor
- bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu i bobl leol.

Derbyn cyfrifoldeb ar y cyd a chefnogi penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet.

**Gweithio gyda swyddogion i arwain y Cyngor**

Gweithredu fel prif bwynt cyswllt y cynghorwyr â’r Prif Weithredwr a’r Tîm Rheoli Corfforaethol
Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r Prif Weithredwr, a swyddogion eraill priodol
Gweithio gyda gweithwyr y Cyngor yng nghyswllt gweledigaeth strategol a chyfeiriad y Cyngor, rolau rheoli swyddogion a datblygiad materion polisi.

# ATODIAD A

**Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

Rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol wrth geisio cyflawni nodau a blaenoriaethau cyffredin
Cyd-drafod a gweithredu fel brocer mewn achosion lle ceir blaenoriaethau gwahanol ac anghytundeb
Gweithredu fel arweinydd yn y gymuned leol trwy arddangos gweledigaeth a rhagwelediad

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chydberthnasau**

Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da ar y Cyngor a'i waith
Darparu arweinyddiaeth gymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol
Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
Cefnogi a glynu at berthynas barchus, briodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor
Glynu at Gôd Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol ar gyfer Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

**Dysgu a Datblygiad Cynghorwyr**

Ystyried a chymeradwyo ceisiadau gan aelodau i fynychu cynadleddau / seminarau / cyrsiau hyfforddi ar ôl ystyried adroddiad a baratowyd gan y Prif Weithredwr sy'n cynnwys:

a) Manylion y gynhadledd / seminar / cwrs hyfforddi
b) sylwadau'r Cyfarwyddwr perthnasol ynghylch yr angen am fod yn bresennol.
c) cyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â bod yn bresennol h.y. ffioedd cynhadledd / seminar / hyfforddiant, cludiant, cynhaliaeth a llety.

**Gwerthoedd**

Bod yn ymroddedig i'r gwerthoedd canlynol a'u harddangos mewn swydd gyhoeddus:

Bod yn agored ac yn dryloyw
Gonestrwydd ac uniondeb
Goddefgarwch a pharch
Cydraddoldeb a thegwch
Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol
Cynaliadwyedd
Arweinyddiaeth gynhwysol
Meithrin consensws

**4.3 Manyleb Person Arweinydd y Cyngor**

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl honno, mae angen y canlynol ar Arweinydd effeithiol:**

**Rhoi arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor**

Gwybodaeth am gryfderau cymunedol, meysydd i'w gwella a materion allweddol
Dealltwriaeth o'r berthynas rhwng gwleidyddiaeth genedlaethol a lleol
Ymwybyddiaeth strategol dda o'r materion y mae'r Cyngor yn eu hwynebu
Dealltwriaeth o strategaeth, polisïau a gweithrediadau'r Cyngor

# ATODIAD A

**Penodi Cynghorwyr i wasanaethu ar y Cabinet**

Dealltwriaeth o'r rheolau ar gyfer penodi Aelodau'r Cabinet a'r Dirprwy Arweinyddion
Y gallu i sylwi ar ddoniau'r aelodau
Y gallu i gyd-drafod y penodiadau mwyaf manteisiol o fewn ac ar draws grwpiau gwleidyddol
Arfarnu, tywys a mentora aelodau uwch

**Cynrychioli'r Awdurdod a gweithredu fel llysgennad ar ei ran**

Sgiliau cyfathrebu lefel uchel er mwyn cyfathrebu â'r cyfryngau, y gymuned leol a'r gynulleidfa ehangach.
Sgiliau siarad cyhoeddus da

**Rhoi arweiniad o fewn y portffolio**

Y sgiliau angenrheidiol er mwyn i aelod o'r Cabinet gyflawni ei rôl.

**Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a chadeirio cyfarfodydd.**

Dealltwriaeth o gyfansoddiad y Cyngor a'r rheolau gweithdrefn
Sgiliau cadeirio cyfarfodydd, yn cynnwys annog yr holl aelodau i gyfranogi
Gwybodaeth a dealltwriaeth o amcanion polisi cenedlaethol
Trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan holl aelodau'r Cabinet.

**Bod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir ar y cyd gan y Cabinet**

Y gallu i herio penderfyniadau'n adeiladol ac awgrymu posibiliadau amgen

**Gweithio gyda swyddogion i arwain y sefydliad**

Dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a swyddogion eraill

**Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

Sgiliau arwain hyblyg
Sgiliau cyd-drafod a broceriaeth
Sgiliau meddwl yn greadigol ac yn ochrol; y gallu i weld ymlaen a rhagfynegi

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chydberthnasau**

Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
Parch at wahanol grwpiau ac unigolion ac awydd i weithio gyda hwy
Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor, y Côd Ymddygiad a'r Protocol ar gyfer Aelodau/Swyddogion
Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

## 5. DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR AC AELOD CABINET DROS GARTREFI

### 5.1 Atebolrwydd

I Arweinydd y Cyngor
I'r Cabinet (trwy gyfrifoldeb ar y cyd)
I'r Cyngor Llawn
I'r etholwyr

### 5.2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

Bydd Arweinydd y Cyngor yn dynodi hyd at ddau aelod o'r Cabinet i weithredu fel Dirprwy Arweinyddion:

Bydd pob Dirprwy Arweinydd yn ymgymryd â'r swyddogaethau a nodwyd yn eu proffil swydd ac ym mhroffil swydd Arweinydd y Cyngor, fel y nodir yn adran 4 uchod, ar gais yr Arweinydd mewn amgylchiadau lle na all ef/hi ymgymryd â hwy e.e. Cadeirio cyfarfodydd y Cabinet, neu gynrychioli'r Arweinydd mewn digwyddiadau a chyfarfodydd yn y Sir ac ar lefel ranbarthol neu genedlaethol - ar yr amod bod unrhyw benderfyniadau sy'n disgyn o fewn cylch gwaith aelod perthnasol o'r Cabinet yn cael eu gwneud gan yr aelodau hynny.

Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y meysydd polisi sylweddol a nodir uchod a sicrhau yr ymdrinnir yn effeithiol â materion trawsbynciol ar lefel wleidyddol drwy sicrhau cyswllt priodol â chynghorwyr y Cabinet sydd â phortffolios gwasanaeth penodol.

**Lle penodir 2 Ddirprwy Arweinydd, dylent wneud y canlynol ar y cyd:**

> Cydgysylltu gweithgareddau’r Cabinet fel bod y polisïau a’r arferion yn adlewyrchu’r egwyddor o wneud penderfyniadau ar y cyd, a bod buddiannau’r Cyngor fel corff cyfan ar y blaen yn ymagwedd y Cabinet tuag at y materion y mae’n eu trafod.
>
> Cydgysylltu strategaethau’r Cyngor trwy’r strwythur democrataidd a chymryd cyfrifoldeb am y materion hynny sy’n effeithio ar fwy nag un portffolio/maes gwasanaeth o eiddo'r Cabinet.
>
> Clustnodi materion sy’n “rhychwantu” a sicrhau bod y systemau ar gyfer paratoi polisïau, gan gynnwys paneli ymgynghorol, yn cydnabod ac yn trafod y cyfryw faterion gan dalu sylw bob amser i hyrwyddo gwerth gorau.

### 5.3 Manyleb Person y Dirprwy Arweinydd(ion)

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl honno, mae angen y canlynol ar Ddirprwy Arweinydd effeithiol:**

**Darparu cefnogaeth i arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor**

Gwybodaeth am gryfderau cymunedol, meysydd i'w gwella a materion allweddol
Dealltwriaeth o'r berthynas rhwng gwleidyddiaeth genedlaethol a lleol
Ymwybyddiaeth strategol dda o'r materion y mae'r Cyngor yn eu hwynebu

Dealltwriaeth o strategaeth, polisïau a gweithrediadau'r Cyngor
Dealltwriaeth lawn o faes gorchwyl a rôl y weithrediaeth, a chylch gwaith eu portffolio eu hunain, portffolio'r arweinydd a'r portffolios eraill.
Gweithio dan gyfarwyddyd yr Arweinydd

**Cynrychioli'r Awdurdod a gweithredu fel llysgennad ar ei ran**

Sgiliau cyfathrebu lefel uchel er mwyn cyfathrebu â'r cyfryngau, y gymuned leol a'r gynulleidfa ehangach.
Sgiliau siarad cyhoeddus da

**Rhoi arweiniad o fewn y portffolio**

Y sgiliau angenrheidiol er mwyn i aelod o'r Cabinet gyflawni ei rôl.

**Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a chadeirio cyfarfodydd yn absenoldeb yr Arweinydd.**

Dealltwriaeth o gyfansoddiad y Cyngor a'r rheolau gweithdrefn
Sgiliau cadeirio cyfarfodydd, yn cynnwys annog yr holl aelodau i gyfranogi
Gwybodaeth a dealltwriaeth o amcanion polisi cenedlaethol
Trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan holl aelodau'r Cabinet.

**Bod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir ar y cyd gan y Cabinet**

Y gallu i herio penderfyniadau'n adeiladol ac awgrymu posibiliadau amgen

**Gweithio gyda swyddogion i arwain y sefydliad**

Dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a swyddogion eraill

**Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

Sgiliau arwain hyblyg
Sgiliau cyd-drafod a broceriaeth
Sgiliau meddwl yn greadigol ac yn ochrol; y gallu i weld ymlaen a rhagfynegi

**Portffolio’r Dirprwy Arweinydd**

**1. Dirprwy Arweinydd**

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chydberthnasau**

Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
Parch at wahanol grwpiau ac unigolion ac awydd i weithio gyda hwy
Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor, y Côd Ymddygiad a'r Protocol ar gyfer Aelodau/Swyddogion
Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

## *6. AELODAU'R CABINET*

### 6.1 Atebolrwydd

I Arweinydd y Cyngor
I'r Cabinet (trwy gyfrifoldeb ar y cyd)
I'r Cyngor Llawn
I'r etholwyr

### 6.2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

**Arwain portffolio**

Cymryd yr awenau o ran rhoi cyfeiriad gwleidyddol atebol i'r amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor a geir ym mhob portffolio, gan weithio ar y cyd â'r Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a swyddogion proffesiynol eraill sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu'r gwasanaethau hynny.
Ennill parch swyddogion o fewn y portffolio; darparu cefnogaeth i swyddogion wrth weithredu rhaglenni'r portffolio
Rhoi arweiniad o fewn y portffolio
Cadw mewn cysylltiad â chadeirydd y pwyllgor craffu priodol a derbyn adroddiadau craffu yn ôl y galw
Asesu goblygiadau polisi a rhoi mewnbwn gwleidyddol ar faterion yr ymgynghorwyd yn eu cylch er mwyn dod i benderfyniad naill ai gan y swyddog perthnasol neu ar y cyd ag Aelodau eraill o'r Cabinet
Bod yn atebol am ddewisiadau a pherfformiad o fewn y portffolio
Trwy'r swyddogion priodol, meddu ar drosolwg o reoli perfformiad, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y portffolio
Hyrwyddo cyflawni gwerth gorau
Bod yn wleidyddol atebol am berfformiad y gwasanaethau a ddarperir i gyd-aelodau ac i'r gymuned
Cyflwyno adroddiadau ac ateb cwestiynau ar faterion yn eu portffolios mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor(au) Craffu perthnasol.
Ystyried materion polisi neu berfformiad gwasanaethau y tynnir eu sylw atynt gan gynghorwyr y tu allan i'r weithrediaeth yn dilyn cyfarfodydd Rhwydweithiau Cymunedol.
Gwneud penderfyniadau gweithredol yng nghyswllt holl swyddogaethau'r Cyngor Sir sy'n ymwneud â'r portffolio sydd ganddynt, yn amodol ar y canlynol:

(a) y pwerau a ddirprwywyd i Swyddogion
(b) peidio ag ymarfer y swyddogaethau hynny mewn modd a fyddai'n

(1) newid polisïau neu strategaethau a gymeradwywyd
(2) creu polisïau neu strategaethau newydd,
(3) gwneud penderfyniadau ynghylch dod â gwasanaeth cyhoeddus i ben neu ei addasu,
(4) penderfynu ar bwerau neu ddyletswyddau newydd sylweddol yn sgil deddfwriaeth newydd

(c) y penderfyniadau hynny a wneir yng Nghyfarfodydd Penderfyniadau'r Aelod o'r Cabinet, a gynullir ac a gofnodir yn ffurfiol gan y Prif Weithredwr

# ATODIAD A

**Cyfrannu at bennu agenda a rhaglen waith strategol ar gyfer y portffolio**

Derbyn cyfrifoldeb am lunio dogfennau polisi strategol a statudol o fewn eu portffolio, gan ymgynghori â swyddogion.
Sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet / Cyngor ar gyfer y materion hynny a goruchwylio'u gweithrediad.
Darparu cymorth i lunio a chyflawni rhaglen waith strategol ar lefel wleidyddol a statudol.
Ymgynghori â rhanddeiliaid yn ôl y galw.
Sicrhau bod rhaglen gwaith cychwynnol y portffolio yn cael ei diweddaru'n gyson ac yn gywir.
Annog ffyrdd o wella'r gwasanaethau a ddarperir trwy gyflwyno newidiadau o fewn y portffolio neu trwy weithgaredd ar y cyd â phortffolios eraill neu asiantaethau allanol perthnasol ac annog ymchwil briodol trwy'r prosesau adolygu polisïau

**Darparu cynrychiolaeth ar gyfer y portffolio**

Bod yn ffigwr cryf, galluog, sy'n darbwyllo i gynrychioli'r portffolio mewn cyfweliadau, datganiadau i'r wasg neu gyfarfodydd ymgynghori.
Bod yn ffigwr arweiniol mewn cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid.
Cynrychioli'r Cyngor ar y cyfryw gyrff allanol, ar y cyd ag Awdurdodau eraill, neu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, a bennir o dro i dro gan y Cyngor/Cabinet.

**Adrodd a Rhoi Cyfrif**

Cyflwyno adroddiadau fel sy'n briodol i'r Arweinydd, i'r Cyngor Llawn, i'r Cabinet, i gadeirydd y pwyllgor craffu priodol, i gyrff rheoleiddio a'r cyfryngau.
Bod yn brif lefarydd gwleidyddol ar gyfer y portffolio.
Ymddangos yn ôl y galw gerbron pwyllgorau craffu ynghylch materion sy'n rhan o'r portffolio.

**Chwarae rhan weithredol yng nghyfarfodydd y Cabinet a'r broses o wneud penderfyniadau**

Dangos diddordeb ym mhortffolios pobl eraill a'u cefnogi
Nodi materion sy'n trawstorri portffolios neu sy'n gyfrifoldeb ar y cyd a chyfrannu atynt

**Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol**

Rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol wrth geisio cyflawni nodau a blaenoriaethau cyffredin
Cyd-drafod a gweithredu fel brocer mewn achosion lle ceir blaenoriaethau gwahanol ac anghytundeb
Gweithredu fel arweinydd yn y gymuned leol trwy arddangos gweledigaeth a rhagweledigaeth

# ATODIAD A

**Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chydberthnasau**

Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da ar y Cyngor a'i waith
Rhoi arweiniad cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol
Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw
Cynnal a glynu at berthynas barchus, briodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor
Glynu at Gôd Ymddygiad yr Aelodau, y Protocol ar gyfer Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus

**Gwerthoedd**

Bod yn ymroddedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

Bod yn agored ac yn dryloyw
Gonestrwydd ac uniondeb
Goddefgarwch a pharch
Cydraddoldeb a thegwch
Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol
Cynaliadwyedd
Arweinyddiaeth gynhwysol

**Cabinet yn rhinwedd Ymddiriedolwr Cyngor**
Gwneud penderfyniad mewn perthynas ag Ymddiriedolwyr y mae'r Cyngor yn Ymddiriedolwr Corfforaethol arnynt.

**Portffolios Aelodau'r Cabinet:**

**Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio**

**Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth**

**Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg**

**Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd**

**Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu**

**Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith**

**Aelod Cabinet dros Adnoddau**

**Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

# ATODIAD A

## 6.3 Manyleb Person Aelod o'r Cabinet

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl honno, mae angen y canlynol ar Aelod effeithiol o'r Cabinet:**

### Arwain portffolio

Dealltwriaeth o strategaeth, polisïau a gweithrediadau'r Cyngor
Sgiliau arweinyddiaeth

### Cyfrannu at bennu agenda a rhaglen waith strategol ar gyfer y portffolio

Y gallu i gyflwyno i eraill
Y gallu i ymarfer ymwybyddiaeth a barn strategol
Gwybodaeth am y materion perthnasol a phwy y dylid eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau
Y gallu i ddarbwyllo eraill
Gwybodaeth am y Cyngor ac amcanion cenedlaethol

### Darparu cynrychiolaeth ar gyfer y portffolio

Sgiliau siarad cyhoeddus
Sgiliau cyflwyno da

### Adrodd fel sy'n briodol

Sgiliau cyfathrebu lefel uchel

### Chwarae rhan weithredol yng nghyfarfodydd y Cabinet a'i benderfyniadau

Y gallu i herio penderfyniadau'n adeiladol ac awgrymu posibiliadau amgen
Y wybodaeth, yr hyder a'r gallu i gyfrannu at drafod a datrys materion sy'n trawstorri neu a drafodir ar y cyd

### Arwain partneriaethau ac arweinyddiaeth gymunedol

Sgiliau arwain hyblyg
Sgiliau cyd-drafod a broceriaeth
Sgiliau meddwl yn greadigol ac yn ochrol; y gallu i weld ymlaen a rhagfynegi

### Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chydberthnasau

Dealltwriaeth o rolau swyddogion, aelodau a gwahanol asiantaethau
Parch at wahanol grwpiau ac unigolion ac awydd i weithio gyda hwy
Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor, y Côd Ymddygiad a'r Protocol ar gyfer Aelodau a Swyddogion
Gwybodaeth ac ymrwymiad i werthoedd y Cyngor

## 7. CADEIRYDD PWYLLGOR CRAFFU

### 7.1. Atebolrwydd

I'r Cyngor Llawn
I'r etholwyr

### 7.2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

**Darparu arweiniad a chyfeiriad**

Rheoli'r pwyllgor yn hyderus ac yn effeithiol
Hyrwyddo rôl craffu o fewn y cyngor a'r tu allan, gan gadw mewn cysylltiad yn effeithiol yn fewnol yn y cyngor ac yn allanol gyda phartneriaid y cyngor
Datblygu, mewn ymgynghoriad â'r Cabinet a Swyddogion, rhaglen gwaith cychwynnol gytbwys ar gyfer y pwyllgor, a ddylai gynnwys datblygu ac adolygu polisïau, craffu ymchwiliol, a monitro perfformiad
Sicrhau bod y rhaglen gwaith cychwynnol yn rhoi sylw i ffactorau perthnasol megis: rhaglenni gwaith y weithrediaeth a'r pwyllgorau eraill, blaenoriaethau a risgiau strategol, a materion cymunedol perthnasol
Arddangos dull gwrthrychol a seiliwyd ar dystiolaeth o ymdrin â chraffu
Gwerthuso effaith a gwerth ychwanegol gweithgaredd craffu a nodi'r meysydd i'w gwella
Cyfrannu at ddatblygiad strategol craffu trwy gyfranogi yn Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu'r Cyngor

**Rheoli'r rhaglen waith**

Sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei chyflawni
Adrodd ar y cynnydd o ran y rhaglen waith i'r Cyngor, ac i eraill fel sy'n briodol
Cysylltu â swyddogion, aelodau eraill a chynrychiolwyr cymunedol i ddarparu adnoddau ar gyfer y rhaglen waith a'i chyflawni

**Galw'r Weithrediaeth i gyfrif**

Gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau gweithredol a herio penderfyniadau amhriodol trwy drefniadau galw-i-mewn y Cyngor

**Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

Pennu agenda sy'n cynnwys amcanion a chanlyniadau clir ar gyfer y cyfarfod
Symud y gwaith sy'n cael ei drafod mewn cyfarfodydd yn ei flaen, gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu cyflawni ac y glynir at y côd ymddygiad, y rheolau sefydlog a'r gofynion cyfansoddiadol eraill
Sicrhau bod y gwaith paratoi angenrheidiol yn cael ei wneud ymlaen llaw
Sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn cael cyfle i wneud cyfraniad priodol

**Arweinyddiaeth Gymunedol**

Gweithredu fel ffocws ar gyfer cyswllt rhwng y cyngor, y gymuned a chyrff allanol yng nghyd-destun swyddogaeth craffu
Meithrin dealltwriaeth a pherchenogaeth o swyddogaeth craffu o fewn y gymuned
Nodi materion cymunedol perthnasol ar gyfer craffu
Cynnwys yn llawn randdeiliaid allanol, defnyddwyr gwasanaeth, tystion arbenigol a phartneriaid mewn gweithgaredd craffu

**Cynnwys a datblygu aelodau'r pwyllgor**

Annog perfformiad o safon uchel gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor ei hun a'r grwpiau gorchwyl a gorffen
Asesu perfformiad unigol ac ar y cyd o fewn y pwyllgor a hwyluso datblygiad priodol

**Gwerthoedd**

Bod yn ymroddedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

Bod yn agored ac yn dryloyw
Gonestrwydd ac uniondeb
Goddefgarwch a pharch
Cydraddoldeb a thegwch
Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol
Cynaliadwyedd

**7.3 Manyleb Person Cadeirydd Pwyllgor Craffu**

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl honno, mae angen y canlynol ar Gadeirydd Bwyllgor Craffu effeithiol:**

**Darparu arweiniad a chyfeiriad**

Dealltwriaeth o rôl a swyddogaethau'r Cyngor
Dealltwriaeth o rôl craffu, cylch gwaith y pwyllgor, rôl y cadeirydd, ac agweddau eraill ar y trefniadau democrataidd
Dealltwriaeth o swyddogaethau cynnal craffu
Dealltwriaeth o flaenoriaethau a risgiau'r cyngor
Y gallu i ddatblygu rhaglenni gwaith
Dealltwriaeth o faterion cymunedol
Gwrthrychedd
Sgiliau cyd-drafod a meithrin consensws
Y gallu i feithrin perthynas adeiladol fel 'ffrind beirniadol' i'r Weithrediaeth

**Rheoli'r rhaglen waith**

Y gallu i reoli prosiectau ac adnoddau
Y gallu i reoli pobl
Y gallu i flaenoriaethu
Y gallu i adrodd ar gynnydd i wahanol grwpiau mewn gwahanol arddull

**Galw'r Weithrediaeth i gyfrif**

Dealltwriaeth o drefniadau'r Cyngor ar gyfer galw-i-mewn

**Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

Dealltwriaeth o brotocol cyfarfodydd, y côd ymddygiad, y rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill, a'u cymhwysiad
Y gallu i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol, gan reoli'r agenda a symud busnes yn ei flaen
Y gallu i hwyluso trafodaethau effeithiol
Y gallu i wrando a holi'n effeithiol

**Arweinyddiaeth Gymunedol**

Dealltwriaeth o rôl arweinyddiaeth gymunedol
Gwybodaeth am faterion a disgwyliadau lleol
Y gallu i weithio'n effeithiol gyda holl aelodau'r gymuned a meithrin dealltwriaeth o graffu a pherchnogaeth arno
Gwybodaeth am yr unigolion a'r sefydliadau yn y gymuned, yn enwedig y rhai sy'n cael eu heithrio'n draddodiadol

**Cynnwys a datblygu aelodau'r pwyllgor**

Dealltwriaeth o rôl a sgiliau'r pwyllgor craffu a'r unigolion sy'n rhan ohono
Y gallu i gynorthwyo'r aelodau a'r pwyllgor i asesu eu perfformiad
Y gallu i nodi unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu a chaffael dysgu a datblygu priodol, gan ymgynghori â swyddogion

## *8. IS-GADEIRYDD PWYLLGOR CRAFFU*

### 8.1 Atebolrwydd

I'r Cyngor Llawn
I Gadeirydd y Pwyllgor Craffu
I aelodau'r Pwyllgor Rheoleiddio
I'r etholwyr

### 8.2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

**Darparu arweiniad a chyfeiriad**

Cynorthwyo'r Cadeirydd i reoli'r cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol, gan hwyluso cynhwysiad a chyfranogiad
Cynorthwyo'r Cadeirydd i sicrhau bod y pwyllgor yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor
Cynorthwyo'r Cadeirydd i hyrwyddo rôl craffu o fewn y Cyngor a'r tu allan, gan gadw mewn cysylltiad effeithiol yn fewnol yn y Cyngor ac yn allanol gyda phartneriaid y Cyngor
Arddangos dull gwrthrychol a seiliwyd ar dystiolaeth o ymdrin â chraffu.
Gwerthuso effaith a gwerth ychwanegol gweithgaredd craffu a nodi'r meysydd i'w gwella
Cyfrannu at ddatblygiad strategol craffu trwy gyfranogi yn Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu'r Cyngor

**Rheoli'r rhaglen waith**

Cynorthwyo'r Cadeirydd i sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei chyflawni
Cynorthwyo'r Cadeirydd i gysylltu â swyddogion, aelodau eraill a chynrychiolwyr cymunedol i ddarparu adnoddau ar gyfer y rhaglen waith a'i chyflawni

**Galw'r Weithrediaeth i gyfrif**

Gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau gweithredol a herio penderfyniadau amhriodol trwy drefniadau galw-i-mewn y Cyngor

**Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

Cynorthwyo'r Cadeirydd i bennu agenda sy'n cynnwys amcanion a chanlyniadau clir ar gyfer y cyfarfod
Cynorthwyo'r Cadeirydd i reoli cynnydd busnes mewn cyfarfodydd; sicrhau bod amcanion cyfarfodydd yn cael eu cyflawni ac y glynir at y côd ymddygiad, y rheolau sefydlog a'r gofynion cyfansoddiadol eraill
Cynorthwyo'r Cadeirydd i sicrhau bod y gwaith paratoi angenrheidiol yn cael ei wneud ymlaen llaw
Cynorthwyo'r Cadeirydd i sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn cael cyfle i wneud cyfraniad priodol

# ATODIAD A

**Arweinyddiaeth Gymunedol**

Cynorthwyo'r Cadeirydd i weithredu fel ffocws ar gyfer cyswllt rhwng y Cyngor, y gymuned a chyrff allanol yng nghyd-destun swyddogaeth craffu
Meithrin dealltwriaeth a pherchenogaeth o swyddogaeth craffu o fewn y gymuned.
Nodi materion cymunedol perthnasol ar gyfer craffu
Cynnwys yn llawn randdeiliaid allanol, defnyddwyr gwasanaeth, tystion arbenigol a phartneriaid mewn gweithgaredd craffu

**Cynnwys a datblygu aelodau'r pwyllgor**

Cynorthwyo'r Cadeirydd i annog perfformiad o safon uchel gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor ei hun a'r grwpiau gorchwyl a gorffen
Cynorthwyo'r Cadeirydd i asesu perfformiad unigol ac ar y cyd o fewn y pwyllgor a hwyluso datblygiad priodol

**Gwerthoedd**
Bod yn ymroddedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

Bod yn agored ac yn dryloyw
Gonestrwydd ac uniondeb
Goddefgarwch a pharch
Cydraddoldeb a thegwch
Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol
Cynaliadwyedd

**8.3 Manyleb Person Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu**

**I gyflawni ei rôl fel a nodir yn y disgrifiad o'r rôl honno, mae angen y canlynol ar aelod effeithiol:**

**Cadeirio cyfarfodydd y pwyllgor yn absenoldeb y Cadeirydd**

Sgiliau cadeirio cyfarfodydd, er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn effeithiol a bod pawb sy'n bresennol yn cymryd rhan
Dealltwriaeth o Gyfansoddiad y Cyngor a'r Rheolau Sefydlog

**Darparu arweiniad a chyfeiriad**

Dealltwriaeth o rôl a swyddogaethau'r cyngor
Dealltwriaeth o rôl craffu, cylch gwaith y pwyllgor, rôl y cadeirydd, ac agweddau eraill ar y trefniadau democrataidd
Dealltwriaeth o swyddogaethau cynnal craffu
Dealltwriaeth o flaenoriaethau a risgiau'r cyngor
Y gallu i ddatblygu rhaglenni gwaith
Dealltwriaeth o faterion cymunedol
Gwrthrychedd
Sgiliau cyd-drafod a meithrin consensws

**Rheoli'r rhaglen waith**

Y gallu i reoli prosiectau ac adnoddau
Y gallu i reoli pobl
Y gallu i flaenoriaethu
Y gallu i adrodd ar gynnydd i wahanol grwpiau mewn gwahanol arddull

**Galw'r Weithrediaeth i gyfrif**

Dealltwriaeth o drefniadau'r Cyngor ar gyfer galw-i-mewn

**Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

Dealltwriaeth o brotocol cyfarfodydd, y côd ymddygiad, y rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill, a'u cymhwysiad
Y gallu i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol, gan reoli'r agenda a symud busnes yn ei flaen
Y gallu i hwyluso trafodaethau effeithiol
Y gallu i wrando a holi'n effeithiol

**Arweinyddiaeth Gymunedol**

Dealltwriaeth o rôl arweinyddiaeth gymunedol
Gwybodaeth am faterion a disgwyliadau lleol
Y gallu i weithio'n effeithiol gyda holl aelodau'r gymuned a meithrin dealltwriaeth o graffu a pherchnogaeth arno
Gwybodaeth am yr unigolion a'r sefydliadau yn y gymuned, yn enwedig y rhai sy'n cael eu heithrio'n draddodiadol

**Cynnwys a datblygu aelodau'r pwyllgor**

Dealltwriaeth o rôl a sgiliau'r pwyllgor craffu a'r unigolion sy'n rhan ohono
Y gallu i gynorthwyo'r aelodau a'r pwyllgor i asesu eu perfformiad
Y gallu i nodi unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu a chaffael dysgu a datblygu priodol, gan ymgynghori â swyddogion

## 9. AELOD O BWYLLGOR CRAFFU

### 9.1 Atebolrwydd

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu priodol
I'r Cyngor Llawn
I'r etholwyr

### 9.2 Rôl, Pwrpas a Gweithgaredd

Chwarae rhan lawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Craffu, cynorthwyo i gyflawni ei raglen waith a gwaith unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig

**Adolygu a datblygu polisi**

Cynorthwyo i greu, datblygu, gwella a mireinio polisïau'r Cyngor
Herio polisïau ar sail tystiolaeth gadarn, er enghraifft yn erbyn deddfwriaeth neu flaenoriaeth wleidyddol leol
Asesu effaith y polisi presennol

**Monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau**

Monitro perfformiad darparwyr mewnol ac allanol yn erbyn safonau a thargedau
Cyfrannu at nodi a lleddfu risgiau
Ymchwilio i achosion perfformiad gwael ac ymdrin â hwy

**Hyrwyddo gwaith craffu**

Hyrwyddo rôl craffu y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor, gan ddatblygu cydberthnasau mewnol ac allanol effeithiol
Arddangos dull gwrthrychol a seiliwyd ar dystiolaeth o ymdrin â chraffu
